



24 Cathedral Road / 24 Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ

Cynghorau Tref a Chymuned yng Nghymru

Tel / Ffôn: 029 2032 0500

Fax / Ffacs: 029 2032 0600

Cyfeirnod: AJB261/DE/mh

Textphone / Ffôn testun: 029 2032 0660

Dyddiad cyflwyno: 20 Abril 2017

info@audit.wales / post@archwilio.cymru

www.audit.wales / www.archwilio.cymru

Annwyl Gynghorwyr

Ffioedd archwilio a materion eraill sy'n ymwneud ag archwiliad 2015-16

Mae nifer o gynghorau wedi ysgrifennu at Swyddfa Archwilio Cymru yn ddiweddar gan godi cwestiynau neu bryderon am ffioedd archwilio 2015-16 ac archwilwyr a ddyrannwyd. Felly, roeddwn yn credu y byddai'n ddefnyddiol nodi esboniad i'r holl gynghorau sy'n mynd i'r afael â'r materion cyffredinol a godwyd.

Y dull archwilio newydd

Ers 2011-12, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi cyhoeddi adroddiad blynyddol sy'n nodi'r canfyddiadau cyffredinol o'r archwiliadau o'r holl gynghorau tref a chymuned yng Nghymru. Tynnodd yr adroddiadau hyn sylw at wendidau systemig yn nhrefniadau rheoli ariannol a llywodraethu cynghorau cymuned. Gellir dod o hyd i'r adroddiadau ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru yn <http://www.audit.wales/cy/cyhoeddi/rheoli-ariannol-llywodraethu-mewn-cynghorau-cymuned-2015-16>.

Yn dilyn ymgynghori a chyhoedduswydd helaeth dros y tair neu'r pedair blynedd ddiwethaf, newidiodd yr Archwilydd Cyffredinol y dull o archwilio cynghorau cymuned ar gyfer 2015-16 i gynorthwyo wrth fynd i'r afael â'r gwendidau. Mae'r dull newydd yn berthnasol i bob cyngor waeth beth yw ei incwm a'i wariant. Mae hyn oherwydd bod yr Archwilydd Cyffredinol wedi nodi bod y materion systemig a nodwyd uchod yn effeithio ar gynghorau o bob maint.

Cafodd y newid hwn o ran dull ei gyfathrebu drwy adroddiadau blynyddol yr Archwilydd Cyffredinol, yng nghynadledau Un Llais Cymru a Chymdeithas Clercod Cynghorau Lleol a chan archwilwyr lleol ar ôl cwblhau archwiliadau 2014-15. Mae'r trefniadau newydd, mewn ymateb i wendidau, wedi cynyddu swm y gwaith mae archwilwyr yn ei gwblhau er mwyn cyflawni cyfrifoldebau statudol yr Archwilydd Cyffredinol ac mae hyn yn cael sgil- effaith ar y ffi archwilio.

Er mwyn cynorthwyo cynghorau i ddatblygu eu trefniadau, ymrwymodd yr Archwilydd Cyffredinol i nodi cyn bob blwyddyn ariannol, y meysydd y byddai archwilwyr yn canolbwyntio arnynt fel rhan o'r trefniadau newydd. Mae hyn hefyd wedi ei fwriadu i helpu i leihau ffioedd archwilio. Nododd adroddiadau'r Archwilydd Cyffredinol ar gyfer archwiliadau 2013-14 a 2014-15 y meysydd y byddai archwilwyr yn canolbwyntio arnynt ar gyfer archwiliad 2015-16. Roedd y meysydd hyn yn cynnwys yn benodol pennu cyllideb a monitro. Cafodd yr adroddiadau eu cyhoeddi mewn da bryd i sicrhau y byddai cynghorau'n gallu paratoi cyllidebau 2015-16 yn unol â gofynion Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992. Atodaf ddyfyniad o'r adroddiad blynyddol sy'n nodi'r themâu arfaethedig ar gyfer yr ychydig flynyddoedd nesaf.

Ffioedd archwilio

Mae tair prif agwedd i'r cwestiynau a'r pryderon a godwyd o ran ffioedd archwilio:

1. Pam mae'r ffi archwilio yn un a godwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru ac sy'n daladwy iddi pan gafodd yr archwiliad ei gynnal gan gwmni archwilio ac nid Swyddfa Archwilio Cymru?

Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn nodi mai Archwilydd Cyffredinol Cymru yw'r archwilydd statudol bellach ar gyfer pob cyngor tref a chymuned. Felly, mae'r holl waith archwilio yn cael ei gynnal dros ac ar ran yr Archwilydd Cyffredinol. Yn sgil cymhlethdodau gyda TAW (nid yw'r Archwilydd Cyffredinol yn codi TAW), mae Swyddfa Archwilio Cymru yn codi ffioedd archwilio yn seiliedig ar wybodaeth a ddarperir gan yr archwilwyr. Mae gennym drefniadau yn eu lle i ddiogelu'r cwmnïau archwilio am y costau maent yn mynd iddynt ar ran yr Archwilydd Cyffredinol.

2. Pam nad oes TAW yn cael ei chodi ar y ffi archwilio eleni pan mae wedi'i chodi'n flaenorol?

Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol yn codi TAW ar gyfer cyflawni ei swyddogaethau statudol, gan gynnwys archwilio cyfrifon.

3. Pam mae'r ffi wedi newid eleni o gymharu ag archwiliad 2014-15?

Cyfrannodd dau ffactor at gynnydd yn y ffi archwilio ar gyfer 2015-16 o gymharu â 2014-15:

- newid yn y fframwaith statudol y pennir ffioedd ynddo;
- y newidiadau i'r dull archwilio.

Mewn blynyddoedd blaenorol, cododd archwilwyr ffioedd archwilio ar raddfa ffi sefydlog yn seiliedig ar incwm a gwariant y cyngor am y flwyddyn. Nid oedd y ffioedd a godwyd ar gyfer y cynghorau lleiaf o dan y trefniadau hyn yn cwmpasu cost y gwaith archwilio. Yn dilyn newid mewn deddfwriaeth, mae'r Archwilydd Cyffredinol bellach yn codi ffi i gwmpasu cost lawn gwneud y gwaith ond dim mwy. Mae'r ffioedd sydd bellach yn cael eu codi yn cwmpasu cost cynnal yr archwiliad ym mhob cyngor unigol.

Yn 2016, cyhoeddodd Swyddfa Archwilio Cymru ei chynllun ffioedd y gellir dod o hyd iddo yn <http://www.audit.wales/cy/cyhoeddi/cynllun-ffioedd-2016-17>. Mae'r cynllun ffioedd yn rhoi arwydd o'r ffi archwilio ddisgwyliedig ar gyfer cynghorau tref a chymuned gan ystyried eu maint. Ar gyfer cynghorau unigol, gall y ffi fod yn uwch neu'n is na'r ffi ddisgwyliedig am nifer o resymau gan gynnwys:

- Ansawdd y wybodaeth ategol a ddarperir i'r archwilydd. Po orau yw'r wybodaeth a roddir, hawsaf fydd hi i archwilwyr ddod o hyd i'r wybodaeth er mwyn ei hadolygu a bydd hyn fel arfer yn arwain at ffi archwilio is;
- Amseroldeb a chyflawnrwydd y wybodaeth a ddarperir. Mae'r archwilwyr yn cynghori pob cyngor am y wybodaeth sydd ei hangen ar gyfer yr archwiliad. Lle mae'n rhaid i archwilwyr ailadrodd y cais am wybodaeth neu lle nad ydynt yn cael y wybodaeth, bydd ffi archwilio uwch.

Y Gymraeg a phenodi archwilwyr o Loegr

Cododd nifer o gynghorau bryderon ynghylch darparu gwasanaethau yn Gymraeg ac a fyddai archwilwyr yn Lloegr yn gallu darparu'r gwasanaethau hyn.

Yn 2015, gwnaeth Swyddfa Archwilio Cymru ddefnyddio BDO LLP a Grant Thornton LLP i ddarparu gwasanaethau archwilio ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru am dair blynedd. Cafodd y contractau eu gosod yn dilyn proses gaffael fel sy'n ofynnol gan y Rheoliadau Contractau Cyhoeddus. Cafodd y contract ei hysbysebu yn yr UE ac roedd unrhyw bartion â diddordeb yn gallu mynegi diddordeb. Ni chaniatawyd inni o dan y gyfraith i gymhwyso cyfyngiad daearyddol ar ddarpar gynigwyr. Roedd y broses o ddyfarnu'r contract yn cynnwys asesu pob darpar gyflenwr yn erbyn amrywiaeth o feini prawf a gyhoeddwyd ymlaen llawn. Gwnaeth y cyflenwyr hynny y dyfarnwyd contractau iddynt sgorio uchaf yn ein harfarniad o bob tendr.

Ar y cam cyn-gymhwyso, roedd yn ofynnol i'r cyflenwyr ddarparu tystiolaeth o brofiad a gallu i ddarparu gwasanaethau o fewn amgylchedd dwyieithog (Cymraeg/Saesneg) a threfniadau ar gyfer diwallu anghenion cyrff archwiliedig sy'n dewis cyfathrebu yn Gymraeg. Gwnaeth y ddau gyflenwr ddarparu digon o sicrwydd ar y cam cyn-gymhwyso.

Y camau nesaf

Bob blwyddyn rydym yn cynnal asesiad monitro ansawdd o waith ein cyflenwyr archwilio. Fel rhan o'r ymarfer hwn, rydym yn edrych ar faterion a godwyd gan gynghorau gan gynnwys pryderon ynghylch perfformiad archwilwyr.

Eleni byddwn yn canolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg. Mae'n ymddangos i ni mai dyma'r ffordd fwyaf effeithlon ac effeithiol o nodi materion a all effeithio ar nifer o gynghorau a nodi unrhyw gamau unioni a allai fod yn ofynnol.

Byddwn hefyd yn ystyried ffioedd archwilio sydd y tu allan i'n disgwyliadau er mwyn deall y rhesymau.

Disgwyliwn gwblhau ein hadolygiadau yn fuan ac ystyrir unrhyw wersi a ddysgwyd pan fydd yr archwilwyr yn cynnal archwiliadau 2016-17.

Yn gywir



Anthony Barrett

Archwilydd Cyffredinol Cynorthwyol Cymru